



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mesur llesiant cenedlaethol:

Adroddiad ar y fframwaith
canlyniadau cenedlaethol ar gyfer
pobl sydd angen gofal a chymorth
ac ar gyfer gofalwyr sydd angen
cymorth, 2020-2021



Ffeithiau a ffigurau.....	5
Rhagair.....	6
Cyflwyniad.....	6
Cefndir.....	6
Egwyddorion y Ddeddf	7
Mesur llesiant cenedlaethol	8
Cysylltiadau â fframweithiau eraill	9
Ynglŷn â'r adroddiad hwn	10
Sicrhau hawliau a hawlogaethau.....	14
Canran y bobl sy'n ystyried bod y gofal a'r cymorth maent wedi'i gael yn ardderchog neu'n dda.....	15
Canran y bobl sydd ag ansawdd bywyd gwell, diolch i gyfraniad eu gofal a chymorth.....	15
Canran y bobl sy'n teimlo eu bod wedi cael eu trin â pharch.....	16
Canran y bobl sy'n ystyried y bobl a roddodd help, gofal a chymorth iddynt yn ardderchog neu'n dda	16
Canran y bobl a gafodd yr wybodaeth neu'r cyngor cywir pan oedd arnynt ei angen.....	17
Canran y bobl sy'n dweud eu bod nhw'n gallu rheoli eu bywyd beunyddiol gymaint ag y gallant.....	18
Canran y bobl sy'n teimlo eu bod yn rhan o benderfyniadau ynghylch eu gofal a'u cymorth	18
Canran y sefydliadau gwirfoddol sy'n cynnig gweithgareddau plant a gweithgareddau lles i deuluoedd.....	19
Canran yr oedolion sy'n cael gofal a chymorth sy'n derbyn taliad uniongyrchol	19
Iechyd Corfforol, Iechyd Meddwl a Llesiant Emosiynol	20
Canran y bobl sydd â sgoriau hapusrwydd uchel	21
Canran y bobl sydd â sgoriau uchel o ran bodlonrwydd â bywyd	21
Canran y bobl sydd â llesiant meddwl uchel.....	22
Canran y bobl sydd â llai na dau ymddygiad ffordd iach o fyw.....	23
Canran y genedigaethau byw, unig-anedig, sydd â phwysau geni o lai na 2500 gram	23
Canran y plant sy'n cael gofal a chymorth gyda phroblemau iechyd meddwl	24
Canran y plant sy'n derbyn gofal a chymorth sydd wedi cael y brechiadau diweddaraf.....	24
Canran y plant pump oed a hŷn sy'n cael gofal a chymorth ac sy'n gyfredol o ran archwiliadau deintyddol	24
Disgwyliad oes iach ar enedigaeth.....	25
Nifer y Bobl Hŷn sy'n Torri Eu Clun.....	25
Canran yr oedolion sy'n dweud bod eu hiechyd yn gyffredinol yn dda iawn neu'n dda.....	26

Amddiffyn rhag camdriniaeth ac esgeulustod.....	27
Canran y bobl sy'n dweud eu bod yn teimlo'n ddiogel	27
Canran y plant sy'n cael eu hailgofrestru ar gofrestr amddiffyn plant awdurdod lleol	28
Nifer y digwyddiadau o gam-drin domestig	28
Nifer y troseddau rhyw.....	29
Canran yr oedolion sydd mewn perygl o gamdriniaeth neu esgeulustod sydd wedi cael eu hatgyfeirio fwy nag unwaith yn ystod y flwyddyn.....	29
Addysg, Hyfforddiant a Gweithgareddau Hamdden	29
Canran y bobl sy'n dweud eu bod yn gallu gwneud yr hyn sy'n bwysig iddynt	30
Canlyniadau Cyfnod Allweddol 2 ar gyfer plant sy'n cael gofal a chymorth.....	31
Canlyniadau Cyfnod Allweddol 4 ar gyfer plant sy'n cael gofal a chymorth.....	31
Cyfraddau presenoldeb yn yr ysgol ar gyfer plant sy'n cael gofal a chymorth	31
Deilliannau dysgwyr yn y sectorau addysg bellach, dysgu seiliedig ar waith a dysgu oedolion yn y gymuned	32
Canran yr oedolion rhwng 16 a 64 oed sydd ag o leiaf un cymhwyster	33
Canran y plant sy'n cael gofal a chymorth sydd wedi cyflawni'r lefel ddysgu ddisgwyliedig, neu uwch, ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen	33
Perthnasoedd domestig, teuluol a phersonol	33
Canran y bobl sy'n dweud eu bod yn teimlo'n unig yn gyffredinol, yn emosiynol ac yn gymdeithasol.....	34
Canran y bobl sy'n meddwl bod pobl yn eu hardal leol yn parchu ac yn ystyried ei gilydd	34
Canran y bobl sy'n teimlo eu bod nhw'n perthyn i'w hardal leol	35
Canran y bobl sy'n teimlo bod eu hardal leol yn rhywle lle mae pobl o gefndiroedd gwahanol yn cyd-dynnu'n dda.....	35
Y cyfraniad a wneir at gymdeithas.....	36
Canran y bobl sy'n dweud bod y pethau a wnânt mewn bywyd yn werth chweil.....	37
Canran y bobl sy'n gwirfoddoli	37
Canran y sefydliadau gwirfoddol sy'n cynnig gweithgareddau i'r gymuned neu i bobl ifanc	37
Canran y sefydliadau gwirfoddol sy'n cynnig gweithgareddau i bobl anabl.....	38
Llesiant cymdeithasol ac economaidd.....	38
Cyfradd cyflogaeth oedolion 50 oed a hŷn.....	39
Cyfradd cyflogaeth oedolion sydd rhwng 16 a 64 oed ac sydd ag anabledd craidd neu anabledd sy'n cyfyngu ar eu gallu i weithio dan y Ddeddf Cydraddoldeb	40
Bwlch o ran disgwyliad oes rhwng y rhai leiaf a mwyaf difreintiedig	40

Canran y bobl ifanc 19-24 oed nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET)	40
Canran yr aelwydydd sy'n wynebu amddifadedd materol	41
Siart 23: Canran yr aelwydydd sy'n wynebu amddifadedd materol	41
Addasrwydd llety preswyl	42
Canran y bobl sy'n dweud bod eu llety yn addas i'w hanghenion	42
Canran yr aelwydydd digartref sy'n cynnwys plant dibynnol	43
Canran y sefydliadau gwirfoddol sy'n cynnig gweithgareddau tai	43
Canran y tai cymdeithasol sy'n cydymffurfio â Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC).....	43
Y Camau Nesaf	44

Ffeithiau a ffigurau

Siart 1: Canran y bobl sy'n ystyried bod y gofal a'r cymorth maent wedi'i gael yn ardderchog neu'n dda	15
Siart 2: Canran y bobl sydd ag ansawdd bywyd gwell, diolch i gyfraniad eu gofal a chymorth	16
Siart 4: Canran y bobl sy'n ystyried y bobl a roddodd help, gofal a chymorth iddynt yn ardderchog neu'n dda	17
Siart 5: Canran y bobl a gafodd yr wybodaeth neu'r cyngor cywir pan oedd arnynt ei angen	17
Siart 6: Canran y bobl sy'n dweud eu bod nhw'n gallu rheoli eu bywyd beunyddiol gymaint ag y gallant	18
Siart 8: Canran y bobl sydd â sgoriau hapusrwydd uchel	21
Siart 9: Canran y bobl sydd â sgoriau uchel o ran bodlonrwydd â bywyd	22
Siart 10: Canran y bobl sydd â llesiant meddwl uchel	22
Siart 11: Canran y plant sy'n cael gofal a chymorth gyda phroblemau iechyd meddwl, sydd wedi cael y brechiadau diweddaraf ac sy'n 5 oed a throsodd ac yn gyfredol o ran archwiliadau deintyddol	24
Siart 13: Canran yr oedolion sy'n dweud bod eu hiechyd yn gyffredinol yn dda iawn neu'n dda	26
Siart 14: Canran y bobl sy'n dweud eu bod yn teimlo'n ddiogel	28
Siart 15: Canran y bobl sy'n dweud eu bod yn gallu gwneud yr hyn sy'n bwysig iddynt	30
Siart 17: Canran y bobl sy'n meddwl bod pobl yn eu hardal leol yn trin ei gilydd â pharch	34
Siart 18: Canran y bobl sy'n teimlo eu bod nhw'n perthyn i'w hardal leol	35
Siart 19: Canran y bobl sy'n teimlo bod eu hardal leol yn rhywle lle mae pobl o gefndiroedd gwahanol yn cyd-dynnu'n dda	35
Siart 20: Canran y bobl sy'n dweud bod y pethau a wnânt mewn bywyd yn werth chweil	37
Siart 21: Cyfradd cyflogaeth oedolion 50 oed a hŷn a 16-64 oed ac sydd ag anabledd craidd neu anabledd sy'n cyfyngu ar eu gallu i weithio dan y Ddeddf Cydraddoldeb	39
Oherwydd newid yn y dull ar gyfer cyfrifo Disgwyliad Oes lach ni fydd diweddariad yn yr adroddiad hwn; bydd data ar gael mewn diweddariadau yn y dyfodol	40
Siart 22: Canran y bobl ifanc 19-24 oed nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET)	40
Siart 24: Canran y bobl sy'n dweud bod eu llety yn addas i'w hanghenion	42

Rhagair

Ar ddechrau 2020, profodd y byd bandemig ar raddfa nad ydym wedi'i phrofi yn y cyfnod diweddar. Mae maint pandemig COVID-19 yn ddigynsail ac mae'r effaith yn parhau. Mae pawb ar ryw adeg wedi teimlo ei effeithiau arnom ac nid oes amheuaeth y bydd effaith hirdymor y pandemig hwn heb ei debyg, ac y bydd yn cymryd blynyddoedd i'r byd adfer ohono.

Ni ddylid amcangyfrif yn rhy isel beth yw effaith y pandemig ar unigolion; mae wedi effeithio ar bob un ohonom, ond yn arbennig ar blant a phobl ifanc, pobl anabl, gofalwyr di-dâl a phobl hŷn, i enwi dim ond rhai. O ganlyniad, mae'n hollbwysig parhau i werthfawrogi a monitro llesiant y rhai hynny sydd angen gofal neu gymorth.

Mae pandemig COVID-19 wedi dangos arwyddocâd llesiant a phwysigrwydd rhoi cyfle cyfartal i bobl Cymru sicrhau eu bod yn gallu bod y fersiynau gorau ohonynt eu hunain.

Gosodwyd y datganiad llesiant gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar 24 Awst 2016 ac mae'n adeiladu ar y diffiniad o lesiant yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Mae'r datganiad llesiant yn dangos ymrwymiad Llywodraeth Cymru i sicrhau llesiant y bobl sydd angen gofal neu gymorth. Bydd hefyd yn cael ei ddefnyddio i feithrin dealltwriaeth gyffredin o lesiant ar draws pob sefydliad, er mwyn sicrhau bod pawb yn gweithio gyda'i gilydd tuag at yr un canlyniadau pwysig ar gyfer unigolion.

Yn ogystal â hyn; mae ein Rhaglen Lywodraethu yn nodi ein blaenoriaethau ar gyfer y Senedd hon, yn ogystal â'r deg amcan llesiant y byddwn yn eu defnyddio i wneud y mwyaf o gyfraniad y llywodraeth tuag at gyflawni pob un o'r nodau llesiant.

Mae'n hanfodol bwysig ein bod ni'n parhau i fonitro iechyd a llesiant pobl Cymru. Byddwn yn ymdrechu i wneud hyn yn unol â chanfyddiadau'r Adroddiad Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol diweddaraf ac yn gweithio i ailadeiladu ac adfer o'r pandemig.

Cyflwyniad

Cefndir

Yn 2011, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei huchelgeisiau ar gyfer dyfodol gofal cymdeithasol yn y papur Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy i Gymru: Fframwaith Gweithredu¹, a oedd yn sefydlu fframwaith ar gyfer bodloni'r heriau sy'n wynebu gwasanaethau cymdeithasol yn y degawd nesaf a'r tu hwnt, ac yn nodi'r blaenoriaethau ar gyfer gweithredu.

¹ Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy i Gymru: Fframwaith Gweithredu ([wales.nhs.uk](https://www.wales.nhs.uk))

Ategir Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy i Gymru mewn deddfwriaeth gan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru)² ('y Ddeddf') a bydd yn darparu system a fydd wedi'i chanoli ar lesiant pobl y mae arnynt angen gofal a chymorth a gofalwyr y mae arnynt angen cymorth.

Mae'r Ddeddf yn cynnwys un ar ddeg o rannau ar wahân (isod) ac fe'i hategir gan Reoliadau a Chodau Ymarfer:

- **Rhan 1** – Cyflwyniad
- **Rhan 2** – Swyddogaethau Cyffredinol
- **Rhan 3** – Asesu anghenion unigolion
- **Rhan 4** – Diwallu anghenion
- **Rhan 5** – Codi ffioedd ac asesiadau ariannol
- **Rhan 6** – Plant sy'n derbyn gofal a phlant sy'n cael eu lletya
- **Rhan 7** – Diogelu
- **Rhan 8** – Swyddogaethau Gwasanaethau Cymdeithasol
- **Rhan 9** – Cydweithrediad a phartneriaeth
- **Rhan 10** – Cwynion, sylwadau a gwasanaethau eirioli
- **Rhan 11** – Amrywiol a chyffredinol

Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswyddau ar awdurdodau lleol, byrddau iechyd a Gweinidogion Cymru sy'n ei gwneud yn ofynnol iddynt weithio i hybu llesiant y rhai y mae arnynt angen gofal a chymorth, neu ofalwyr y mae arnynt angen cymorth.

Mae'r Ddeddf yn newid y sector gwasanaethau cymdeithasol:

- Fel bod gan bobl reolaeth ar y math o gymorth y mae ei angen arnynt, gan wneud penderfyniadau am eu gofal a chymorth fel partner cyfartal
- Fel bod asesiad cymesur newydd yn canolbwyntio ar yr unigolyn
- Fel bod gan ofalwyr hawl gyfartal i asesiad ar gyfer cymorth i'r rhai y maent yn gofalu amdanynt
- Fel bod mynediad rhwydd at wybodaeth a chyngor ar gael i bawb
- Fel bod pwerau i ddiogelu pobl yn gryfach
- Fel bod dull ataliol o ddiwallu anghenion gofal a chymorth yn cael ei ddefnyddio.
- Mae awdurdodau lleol a byrddau iechyd yn dod ynghyd mewn partneriaethau statudol newydd i sbarduno camau i integreiddio, arloesi a newid gwasanaethau

Egwyddorion y Ddeddf

- Mae'r Ddeddf yn cynorthwyo pobl ag anghenion gofal a chymorth i gyflawni eu llesiant
- Mae pobl yn ganolog i'r system newydd ac yn cael llais cyfartal yn y cymorth y maent yn ei gael

² Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

https://www.legislation.gov.uk/anaw/2014/4/pdfs/anaw_20140004_en.pdf

- Mae partneriaeth a chydweithrediad yn sail i ddarparu gwasanaethau
- Bydd gwasanaethau'n hybu camau i atal angen rhag gwaethygu a sicrhau bod y cymorth cywir ar gael ar yr adeg gywir

Mae'r Ddeddf yn trawsnewid gofal cymdeithasol yng Nghymru a'i nod yw gwella llesiant pobl. Bydd gwasanaethau gofal a chymorth ledled Cymru'n canolbwyntio ar y canlyniadau llesiant y mae pobl ac arnynt angen gofal a chymorth a gofalwyr ac arnynt angen cymorth yn dymuno'u cyflawni, ac ar hawliau a chyfrifoldebau pobl.

Mesur llesiant cenedlaethol

Roedd datblygu'r Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol³ yn un o'r gofynion yn Rhan 2, Adran 8 o'r Ddeddf i ddisgrifio llesiant i bobl y mae arnynt angen gofal a chymorth a gofalwyr y mae arnynt angen cymorth a darparu dull cyson o fesur llesiant.

Mae'r fframwaith yn adeiladu ymhellach ar y canlyniadau llesiant cenedlaethol a ddisgrifir yn y datganiad llesiant⁴ trwy nodi hanner cant a dau o ddangosyddion canlyniadau cenedlaethol sydd wedi'u diffinio o dan wyth agwedd ar lesiant sy'n ymwneud â phob agwedd o fywyd unigolyn: Mae'r rhain yn cynnwys:

- Sicrhau hawliau a hawlogaethau
- Iechyd corfforol, iechyd meddwl a llesiant emosiynol
- Amddiffyn rhag camdriniaeth ac esgeulustod
- Addysg, hyfforddiant a gweithgareddau hamdden
- Perthnasoedd domestig, teuluol a phersonol
- Cyfraniad a wneir at y gymdeithas
- Llesiant cymdeithasol ac economaidd
- Addasrwydd llety preswyl

Mae'r dangosyddion canlyniadau cenedlaethol yn dangos a yw'r canlyniadau llesiant cenedlaethol yn cael eu cyflawni, ac yn rhoi mesur o lesiant pobl y mae arnynt angen gofal a chymorth a gofalwyr y mae arnynt angen cymorth.

Mae'r dangosyddion canlyniadau cenedlaethol wedi cael eu pennu gan Lywodraeth Cymru⁵ ar y cyd ag ystod eang o randdeiliaid o bob rhan o'r sector gofal cymdeithasol yng Nghymru.

Amcanion allweddol y fframwaith canlyniadau cenedlaethol yw:

- **gosod cyfeiriad cenedlaethol i hyrwyddo llesiant pobl sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr sydd angen cymorth yng Nghymru;**
Bydd newid pwyslais y ddarpariaeth, i hyrwyddo llesiant, yn rhoi ffocws i'r holl wasanaethau (statudol, trydydd sector a sector annibynnol), i weithio gyda phobl a gofalwyr i ddeall beth sydd o bwys iddyn nhw. Rhaid i wasanaethau weithio mewn partneriaeth i adeiladu ar gryfderau a galluoedd pobl er mwyn eu galluogi i gynnal annibyniaeth briodol gyda lefel briodol o ofal a chymorth.

³ Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol [Fframwaith canlyniadau cenedlaethol gwasanaethau cymdeithasol | LLYW.CYMRU](#)

⁴ Datganiad llesiant [29438 Datganiad llesiant \(llyw.cymru\)](#)

⁵ Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol - [Fframwaith canlyniadau cenedlaethol gwasanaethau cymdeithasol | LLYW. CYMRU](#)

Bydd y fframwaith canlyniadau cenedlaethol yn cefnogi gwasanaethau i gydweithio er mwyn hyrwyddo llesiant mewn perthynas â gofal a chymorth.

- **darparu mwy o dryloywder ynghylch a yw gwasanaethau yn gwella canlyniadau llesiant i bobl sydd angen gofal a chymorth a gofalcwyr sydd angen cymorth yng Nghymru, gan ddefnyddio dangosyddion cyson y gellir eu cymharu;**

Bydd hyn yn galluogi'r sector i graffu ar ei berfformiad a bydd yn amlygu'r hyn sydd angen ei wneud i wella llesiant pobl, yn hytrach na canolbwyntio ar y prosesau sydd ynghlwm wrth gyflenwi gwasanaethau cymdeithasol. Y fframwaith canlyniadau cenedlaethol fydd y prif ysgogydd ar gyfer dynodi blaenoriaethau cenedlaethol o ran gwelliannau, yn seiliedig ar dystiolaeth. Bydd yr wybodaeth hon yn cael ei defnyddio'n effeithiol i sicrhau bod adnoddau gwella yn canolbwyntio ar y meysydd mwyaf pwysig, yn dynodi ac yn ymestyn arferion gorau ac yn dynodi ymhle mae angen polisïau newydd.

- **disgrifio'r canlyniadau llesiant cenedlaethol pwysig y dylai pobl sydd angen gofal a chymorth, a gofalcwyr sydd angen cymorth, eu disgwyl er mwyn byw bywydau bodlon.**

Bydd hyn yn rhoi mwy o lais i bobl a mwy o reolaeth dros eu bywydau ac yn eu galluogi i wneud penderfyniadau gwybodus i sicrhau eu bod yn gwella eu llesiant eu hunain. Bydd canolbwyntio ar ganlyniadau llesiant pobl yn ysgogi profiadau gwell a gwasanaethau gwell ar gyfer pobl sydd angen gofal a chymorth a gofalcwyr sydd angen cymorth.

Ceir crynodeb o'r dangosyddion canlyniadau cenedlaethol a ffynonellau data sy'n ymwneud â'r dangosyddion ar dudalennau'r [Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol](#) ar wefan Llywodraeth Cymru.

Cysylltiadau â fframweithiau eraill

Caiff y Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol Gwasanaethau Cymdeithasol hwn ei ddatblygu'n arbennig i ategu dangosyddion cenedlaethol *Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015*⁶ sy'n mesur a yw Cymru'n cyflawni'r saith nod llesiant a nodir yn y Ddeddf. Mae'r nodau hyn yn cynnwys sicrhau Cymru lewyrchus, wydn, mwy cyfartal ac iachach, drwy wella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, yn awr ac yn y dyfodol.

Mae'r Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol hwn hefyd yn cysylltu'n agos â fframweithiau canlyniadau eraill gan gynnwys y rhai ar gyfer y Gwasanaeth Iechyd Gwladol a'r Fframwaith Canlyniadau Iechyd y Cyhoedd⁷. Mae gorgyffwrdd uniongyrchol â rhai dangosyddion sy'n cael eu rhannu ar draws y fframweithiau hyn, tra bod rhai dangosyddion sy'n ategu eraill. Mae gwaith yn mynd rhagddo i alinio'r fframweithiau hyn ymhellach fel yr amlinellir yng Nghymru Iachach⁸

⁶ Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol <https://llyw.cymru/plant-theuluoedd>

⁷ Fframwaith Canlyniadau Iechyd Cyhoeddus <https://icc.gig.cymru/gwasanaethau-a-thimau/arsyllfa/>

⁸ Cymru Iachach: ein Cynllun ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol - <https://llyw.cymru/iechyd-a-gofal-cymdeithasol>

Yn ogystal â'r fframweithiau canlyniadau, daeth fframwaith perfformiad a gwella newydd ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru⁹ i rym ym mis Ebrill 2020. Wedi'i gynhyrchu gan Lywodraeth Cymru mewn cydweithrediad ag awdurdodau lleol a rhanddeiliaid gofal cymdeithasol yng Nghymru, mae'n disgrifio uchelgais Llywodraeth Cymru i ddefnyddio ystod o ddulliau i gasglu, dadansoddi a deall data a thystiolaeth ar ddarparu gofal a chymorth, a chymorth i ofalwyr ledled Cymru.

Ynglŷn â'r adroddiad hwn

Oherwydd pandemig COVID-19, ni chyhoeddwyd adroddiad y fframwaith canlyniadau cenedlaethol yn 2020. Cyhoeddwyd yr adroddiad diwethaf yn 2019 ac roedd yn cynnwys data ar gyfer blwyddyn ariannol 2017-18.

Bydd yr adroddiad hwn yn cynnwys data o 2018-19 lle bo hynny'n bosibl yn ogystal â'r data diweddaraf ar gyfer 2019-20.

Dyma'r ail adroddiad blynyddol yn erbyn y fframwaith canlyniadau cenedlaethol ar gyfer pobl y mae arnynt angen gofal a chymorth ac i ofalwyr y mae arnynt angen cymorth. Pan fydd data newydd ar gael, bydd yr adroddiad hwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf ar gyfer pob dangosydd. Adroddir ar dueddiadau lle y bo'n bosibl.

Bydd yr holl adroddiadau dilynol ar y fframwaith canlyniadau cenedlaethol yn cael eu cyhoeddi'n flynyddol. Wrth i wybodaeth gael ei chasglu trwy'r fframwaith canlyniadau cenedlaethol dros y blynyddoedd nesaf, rydym yn gobeithio sefydlu'r sail dystiolaeth i adnabod y blaenoriaethau cenedlaethol ar gyfer gwella yng Nghymru. Bydd hyn yn darparu dealltwriaeth am effaith gyffredinol gofal a chymorth ar fywydau pobl.

Tabl 1: Dangosyddion sydd wedi'u diweddarau neu eu dileu.

SICRHAU HAWLIAU A HAWLOGAETHAU

DANGOSYDD DIWEDDARWYD - DO / NADDO

1. Canran y bobl sy'n ystyried bod y gofal a'r cymorth maent wedi'i gael yn ardderchog neu'n dda – **DO**
2. Canran y bobl sydd ag ansawdd bywyd gwell, diolch i gyfraniad eu gofal a chymorth – **DO**
3. Canran y bobl sy'n teimlo eu bod wedi cael eu trin â pharch - **DO**
4. Canran y bobl sy'n ystyried y bobl a roddodd help, gofal a chymorth iddynt yn ardderchog neu'n dda - **DO**
5. Canran y bobl a gafodd yr wybodaeth neu'r cyngor cywir pan oedd arnynt ei angen - **DO**

⁹ Fframwaith Perfformiad a Gwella - <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2020-03/mesur-gweithgarwch-a-perfformiad-canllawiau-2020-21.pdf>

6. Canran y bobl sy'n dweud eu bod nhw'n gallu rheoli eu bywyd beunyddiol gymaint ag y gallant - **DO**
7. Canran y bobl sy'n teimlo eu bod yn rhan o benderfyniadau ynghylch eu gofal a'u cymorth - **DO**
8. Canran y sefydliadau gwirfoddol sy'n cynnig gweithgareddau plant a gweithgareddau lles i deuluoedd - **DO**

IECHYD CORFFOROL, IECHYD MEDDWL A LLESIANT EMOSIYNOL

DANGOSYDD - DIWEDDARWYD DO / NADDO

10. Canran y bobl sydd â sgoriau hapusrwydd uchel - **DO**
11. Canran y bobl sydd â sgoriau uchel o ran bodlonrwydd â bywyd - **DO**
12. Canran y bobl sydd â llesiant meddwl uchel - **DO**
13. Canran y bobl sydd â llai na dau ymddygiad ffordd iach o fyw - **DO**
14. Canran y plant sy'n cael gofal a chymorth sydd â phroblemau iechyd meddwl - **DO**
15. Canran y genedigaethau byw, unig-anedig, sydd â phwysau geni o lai na 2500 gram - **DO**
16. Canran y plant sy'n cael gofal a chymorth ac sydd wedi cael y brechiadau diweddaraf - **DO**
17. Canran y plant mewn angen sy'n gyfredol o ran archwiliadau deintyddol - **DO**
18. Disgwyliad oes iach ar enedigaeth - **DO**
19. Nifer y bobl hŷn sy'n torri eu clun - **DO**
20. Canran y bobl sy'n dweud bod eu hiechyd yn gyffredinol yn dda iawn neu'n dda - **DO**

AMDDIFFYN RHAG CAMDRINIAETH AC ESGEULUSTOD

DANGOSYDD - DIWEDDARWYD DO/NADDO

21. Canran y bobl sy'n dweud eu bod yn teimlo'n ddiogel - **DO**
22. Canran y plant sy'n cael eu cofrestru ar gofrestr amddiffyn plant awdurdod lleol - **DO**
23. Nifer y troseddau rhyw - **DO**
24. Nifer y digwyddiadau o gam-drin domestig - **DO**

25. Canran yr oedolion sydd mewn perygl o gamdriniaeth neu esgeulustod ac sydd wedi'u hatgyfeirio fwy nag unwaith y flwyddyn - **DO**

ADDYSG, HYFFORDDIANT A GWEITHGAREDDAU HAMDDEN

DANGOSYDD - DIWEDDARWYD DO/NADDO

26. Canran y bobl sy'n dweud eu bod yn gallu gwneud yr hyn sy'n bwysig iddynt - **DO**

27. Canlyniadau Cyfnod Allweddol 4 ar gyfer plant sy'n cael gofal a chymorth - **DO**

28. Canlyniadau Cyfnod Allweddol 2 ar gyfer plant sy'n cael gofal a chymorth - **DO**

29. Cyfraddau presenoldeb yn yr ysgol ar gyfer plant sy'n cael gofal a chymorth - **DO**

30. Deilliannau dysgwyr yn y sectorau addysg bellach, dysgu seiliedig ar waith a dysgu oedolion yn y gymuned - **DO**

31. Canran yr oedolion rhwng 16 a 64 oed sydd ag o leiaf un cymhwyster - **DO**

32. Canran y plant sy'n cael gofal a chymorth sydd wedi cyflawni'r lefel ddysgu ddisgwyliedig, neu uwch, ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen - **DO**

PERTHNASOEDD DOMESTIG, TEULUOL A PHERSONOL

DANGOSYDD - DIWEDDARWYD DO/NADDO

33. Canran y bobl sy'n dweud eu bod yn teimlo'n unig yn gyffredinol, yn emosiynol ac yn gymdeithasol - **NADDO**

34. Canran y bobl sy'n meddwl bod pobl yn eu hardal leol yn parchu ac yn ystyried ei gilydd - **DO**

35. Canran y bobl sy'n teimlo eu bod nhw'n perthyn i'w hardal leol - **DO**

36. Canran y bobl sy'n teimlo bod eu hardal leol yn rhywle lle mae pobl o gefndiroedd gwahanol yn cyd-dynnu'n dda - **DO**

CYFRANIAD A WNEIR AT Y GYMDEITHAS

DANGOSYDD - DIWEDDARWYD DO/NADDO

37. Canran y bobl sy'n dweud bod y pethau a wnânt mewn bywyd yn werth chweil - **DO**

38. Canran y bobl sy'n gwirfoddoli - **NADDO**

39. Canran y sefydliadau gwirfoddol sy'n cynnig gweithgareddau i'r gymuned neu i bobl ifanc - **DO**

40. Canran y sefydliadau gwirfoddol sy'n cynnig gweithgareddau i bobl anabl - **DO**

LLESIANT CYMDEITHASOL AC ECONOMAIDD

DANGOSYDD - DIWEDDARWYD DO/NADDO

- 41. Cyfradd cyflogaeth oedolion 50 oed a hŷn - **DO**
- 42. Bwlch o ran disgwyliad oes rhwng y rhai sydd leiaf a mwyaf difreintiedig - **NADDO**
- 43. Canran y bobl ifanc 19-24 oed nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET) - **DO**
- 44. Canran yr unigolion 19 – 24 oed ag anabledd craidd neu anabledd sy'n cyfyngu ar waith o dan y Ddeddf Cydraddoldeb - **DO**
- 45. Canran y bobl sy'n byw mewn aelwydydd mewn amddifadedd sylweddol - **DO**

ADDASRWYDD LLETY PRESWYL

DANGOSYDD - DIWEDDARWYD DO/NADDO

- 46. Canran y bobl sy'n dweud bod eu llety yn addas i'w hanghenion - **DO**
- 47. Canran y sefydliadau gwirfoddol sy'n cynnig cymorth tai - **DO**
- 48. Canran yr aelwydydd sy'n cynnwys plant dibynnol - **DO**
- 49. Canran y tai cymdeithasol sy'n cyd-fynd â Safon Ansawdd Tai Cymru - **DO**



Sicrhau hawliau a hawlogaethau

Mae gan bawb hawl i gael llais a chyfle i gael ei glywed fel unigolyn ac fel dinesydd, ac i fod â rheolaeth go iawn ar eu bywydau pob dydd. Mae'r datganiad Llesiant yn adlewyrchu'r ymrwymiad a nodir yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 bod yn rhaid i ofal cymdeithasol ganolbwyntio ar hawliau a hawlogaethau pobl y mae arnynt angen gofal a chymorth a gofalcwyr y mae arnynt angen cymorth.

Mae helpu pobl i fod â rheolaeth ar eu bywydau eu hunain, cymaint ag sy'n rhesymol ymarferol, ac i fod yn rhan o benderfyniadau ynglŷn â'u gofal a'u cymorth, yn ganlyniadau llesiant allweddol.

Dangosyddion Canlyniadau

Canran y bobl sy'n ystyried bod y gofal a'r cymorth maent wedi'i gael yn ardderchog neu'n dda

Canran y bobl sydd ag ansawdd bywyd gwell, diolch i gyfraniad eu gofal a chymorth

Canran y bobl sy'n teimlo eu bod wedi cael eu trin â pharch

Canran y bobl sy'n ystyried y bobl a roddodd help, gofal a chymorth iddynt yn ardderchog neu'n dda

Canran y bobl a gafodd yr wybodaeth neu'r cyngor cywir pan oedd arnynt ei angen

Canran y bobl sy'n dweud eu bod nhw'n gallu rheoli eu bywyd beunyddiol gymaint ag y gallant

Canran y bobl sy'n teimlo eu bod yn rhan o benderfyniadau ynghylch eu gofal a'u cymorth

Canran y sefydliadau gwirfoddol sy'n cynnig gweithgareddau plant a gweithgareddau lles i deuluoedd

Canran y defnyddwyr gwasanaethau i oedolion sy'n derbyn taliad uniongyrchol


Canran y bobl sy'n ystyried bod y gofal a'r cymorth maent wedi'i gael yn ardderchog neu'n dda

Er mwyn gallu gwella'u llesiant, byw'n annibynnol a chyflawni eu nodau llesiant personol, mae'n hanfodol bod pobl a gofalwr yn cael gwasanaethau gofal a chymorth o ansawdd da.

Yn 2018-19, roedd tua thri chwarter (76 y cant) y bobl a oedd wedi cael gofal a chymorth yng Nghymru yn ystyried bod y gofal a'r cymorth yr oeddent yn eu cael yn ardderchog neu'n dda. Roedd pobl a oedd wedi cael gofal a chymorth yn fwy tebygol o ystyried bod y gwasanaeth ar y cyfan yn ardderchog neu'n dda o'i gymharu â gofalwyr a oedd wedi cael cymorth (66 y cant).

Fel y mae siart 1 yn dangos, nid oedd gwahaniaeth arwyddocaol rhwng canlyniadau 2014-15, 2016-17 a chanlyniadau 2017-18.

Siart 1: Canran y bobl sy'n ystyried bod y gofal a'r cymorth maent wedi'i gael yn ardderchog neu'n dda




Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru

Canran y bobl sydd ag ansawdd bywyd gwell, diolch i gyfraniad eu gofal a chymorth

Gofynnwyd i bobl a oedd wedi cael gofal a chymorth a gofalwyr a oedd wedi cael cymorth a yw gwasanaethau gofal a chymorth wedi eu helpu i fod ag ansawdd bywyd gwell. Yn 2018-19, roedd 79 y cant o'r bobl a oedd wedi cael gofal a chymorth a 67 y cant o'r gofalwyr a oedd wedi cael cymorth yn cytuno bod eu gofal a'u cymorth wedi eu helpu i fod ag ansawdd bywyd gwell. Mae siart 2 yn dangos bod y canlyniadau'n debyg i'r rhai yn 2016-17 a 2014-15.

Siart 2: Canran y bobl sydd ag ansawdd bywyd gwell, diolch i gyfraniad eu gofal a chymorth




Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru

Canran y bobl sy'n teimlo eu bod wedi cael eu trin â pharch

Bydd cael eu trin ag urddas a pharch, cael gofal priodol heb gael eu cam-drin na'u hesgeuluso a chael eu cynorthwyo i fyw'n annibynnol yn helpu pobl a gofalwyr i wella'u llesiant ac yn eu helpu i gyflawni eu canlyniadau llesiant personol.

Yn 2018-19, teimlai 75 y cant o'r bobl a oedd yn cael gofal a chymorth fod pobl yn eu trin â pharch. Roedd hyn yn debyg i ganlyniadau 2016-17. Roedd canran y bobl a oedd yn teimlo bod pobl wedi'u trin â pharch hefyd yn debyg ar gyfer gofalwyr (78 y cant yn 2018-2019; 79 y cant yn 2016-17) a'r rheini nad ydynt yn cael unrhyw ofal a chymorth (78 y cant yn 2018-19; 79 y cant yn 2016-17).

Siart 3: Canran y bobl sy'n teimlo eu bod wedi cael eu trin â pharch



Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru


Canran y bobl sy'n ystyried y bobl a roddodd help, gofal a chymorth iddynt yn ardderchog neu'n dda

Gofynnwyd i bobl a oedd wedi cael gofal a chymorth a gofalwyr a oedd wedi cael cymorth roi sgôr i'r bobl a oedd yn eu helpu, yn gofalu amdanynt neu'n eu cefnogi'n uniongyrchol.

Mae siart 4 yn dangos yn 2016-17, bod 89 y cant o'r bobl a oedd yn cael gofal a chymorth yn ystyried bod y bobl a oedd yn eu helpu, yn gofalu amdanynt neu'n eu cefnogi'n uniongyrchol yn ardderchog neu'n dda. Mae hyn yn cymharu â 90 y cant yn 2018-19.

I ofalwyr a gafodd gymorth, nododd 77 y cant fod y bobl a roddodd gymorth a gofal iddynt, neu eu cefnogi, yn ardderchog neu'n dda. Mae'r ffigur hwn wedi lleihau dau bwynt canradd ers 2016-17 (79 y cant).

Siart 4: Canran y bobl sy'n ystyried y bobl a roddodd help, gofal a chymorth iddynt yn ardderchog neu'n dda



Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru


Canran y bobl a gafodd yr wybodaeth neu'r cyngor cywir pan oedd arnynt ei angen

Er mwyn i bobl wneud penderfyniadau gwybodus ynglŷn â sut orau i reoli eu llesiant, rhaid i fynediad at wybodaeth, cyngor a chynhorthwy mewn perthynas â gofal a chymorth fod ar gael ar yr adeg gywir ac yn y lle cywir.

Gofynnwyd i bobl a oedd wedi cael gofal a chymorth a gofalwyr a oedd wedi cael cymorth a oeddent yn cytuno ynteu'n anghytuno â'r gosodiad 'wrth gael gofal a chymorth yn y 12 mis diwethaf roeddent wedi cael yr wybodaeth neu'r cyngor cywir pan oedd arnynt ei angen'.

Bu gostyngiad graddol yn y dangosydd hwn ers 2014-15. Mae Siart 5 yn dangos bod pobl a oedd wedi cael gofal a chymorth yn fwy tebygol o gytuno eu bod, yn y 12 mis diwethaf, 'wedi cael yr wybodaeth neu'r cyngor cywir pan oedd arnynt ei angen' (2018-19, 79 y cant; 2016-17, 81 y cant; 2014-15, 82 y cant), o'i gymharu â gofalwyr a oedd wedi cael cymorth (2018-19, 68 y cant, 2016-17, 70 y cant; 2014-15, 73 y cant).

Siart 5: Canran y bobl a gafodd yr wybodaeth neu'r cyngor cywir pan oedd arnynt ei angen




Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru

Canran y bobl sy'n dweud eu bod nhw'n gallu rheoli eu bywyd beunyddiol gymaint ag y gallant

Yn 2018-19, roedd 66 y cant o'r bobl a oedd wedi cael gofal a chymorth a 78 y cant o'r gofalwyr a oedd wedi cael cymorth yn cytuno eu bod yn gallu rheoli eu bywyd beunyddiol gymaint ag y gallant; fodd bynnag, roedd pobl nad oeddent wedi cael unrhyw ofal a chymorth yn fwy tebygol o deimlo'u bod yn gallu rheoli eu bywyd beunyddiol (80 y cant).

Mae Siart 6 yn dangos bod y ffigurau hyn wedi gostwng ar gyfer yr holl ymatebwyr ers 2014-15.

Siart 6: Canran y bobl sy'n dweud eu bod nhw'n gallu rheoli eu bywyd beunyddiol gymaint ag y gallant




Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru

Canran y bobl sy'n teimlo eu bod yn rhan o benderfyniadau ynghylch eu gofal a'u cymorth

Mae'n rhaid i bobl sy'n cael gofal a chymorth fod yn bartneriaid cyfartal yn y broses o ddylunio a darparu eu gofal a'u cymorth gan mai hwy sy'n gwybod beth sydd orau iddynt. Mae'r Ddeddf yn rhoi'r un hawliau cyfreithiol i ofalwyr yng Nghymru ag i'r rhai y maent yn gofalu amdanynt.

Yn 2016-17, roedd tua 4 ym mhob 5 o bobl a oedd wedi cael gofal a chymorth (79 y cant) a gofalwyr a oedd wedi cael cymorth (71 y cant) yn cytuno eu bod wedi bod yn rhan o unrhyw benderfyniadau a wnaed am y modd yr oedd eu gofal neu eu cymorth yn cael ei roi iddynt hwy eu hunain neu i'r sawl yr oeddent yn gofalu amdano/amdani yn y drefn honno. Yn 2018-19 cynyddodd y ffigur hwn ar gyfer pobl sy'n cael gofal a chymorth (80 y cant) a gofalwyr sy'n derbyn cymorth (78 y cant) sy'n awgrymu bod pobl yn teimlo'n fwy o ran o'r penderfyniadau am eu gofal a'u cymorth.

Siart 7: Canran y bobl sy'n teimlo eu bod yn rhan o benderfyniadau ynghylch eu gofal a'u cymorth



Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru

Canran y sefydliadau gwirfoddol sy'n cynnig gweithgareddau plant a gweithgareddau lles i deuluoedd

Mae'r trydydd sector yn ategu gwasanaethau statudol trwy roi cymorth i ddarparu gwasanaethau mewn modd di-dor a darparu gwasanaethau er budd pobl a chymunedau yng Nghymru.

Mae sefydliadau gwirfoddol yn cynnig gweithgareddau i gefnogi lles teuluoedd a phlant, gan gynnwys: darpariaeth cyn ysgol, canolfannau lleol yn darparu gwasanaethau, gwasanaethau mabwysiadu a maethu, sefydliadau hawliau plant a gwasanaethau i blant anabl. Yn 2020-17, roedd lleihad i tua 10 y cant (9.9 y cant) o sefydliadau gwirfoddol yn cynnig gweithgareddau lles a gweithgareddau plant. Mae hyn yn cymharu â 10.2 y cant yn 2017 ac 11.4 y cant yn 2018.

Canran yr oedolion sy'n cael gofal a chymorth sy'n derbyn taliad uniongyrchol

Taliadau ariannol a wneir gan awdurdodau lleol yn uniongyrchol i oedolion i brynu gwasanaethau gofal a chymorth yw taliadau uniongyrchol. Mae hyn yn rhoi rheolaeth go iawn i unigolion ar y ffordd y caiff eu hanghenion o ran gofal a chymorth eu diwallu. Yn 2018-19, roedd canran y taliadau uniongyrchol a wnaed gan awdurdodau lleol yng Nghymru oddeutu 8 y cant (8.2 y cant). Mae hyn yn cymharu â thua 8 y cant (7.7 y cant) yn 2017-18 a thua 7 y cant yn 2016-17. Mae hyn yn awgrymu cynnydd bach yng nghaerdd y bobl sy'n cael gofal a chymorth ac sy'n cael taliad uniongyrchol.



Iechyd Corfforol, Iechyd Meddwl a Llesiant Emosiynol

Mae'r datganiad llesiant yn cydnabod pa mor bwysig ydyw bod gan bobl y mae arnynt angen gofal a chymorth a gofalwyr y mae arnynt angen cymorth iechyd corfforol, iechyd meddwl a llesiant emosiynol da er mwyn mwynhau ansawdd bywyd da.

Mae bod yn iach ac yn egnïol yn gallu galluogi plant i ffynnu a datblygu i'w llawn botensial, a chyfyngu ar y tebygolrwydd y bydd arnynt angen cynhorthwy gan wasanaethau gofal a chymorth yn ddiweddarach yn eu hoes. I oedolion, mae mwynhau iechyd a llesiant corfforol ac emosiynol da wrth iddynt fynd yn hŷn yn gallu eu helpu i gadw eu hannibyniaeth a lleihau arwahanrwydd cymdeithasol trwy barhau i weithio a chyfranogi yn eu cymunedau.

Mae llawer o ffactorau a fydd yn cyfrannu at lefelau iechyd meddwl a llesiant emosiynol. Er mwyn gwella llesiant cyffredinol pobl y mae arnynt angen gofal a chymorth a gofalwyr y mae arnynt angen cymorth, rhaid i wasanaethau gofal a chymorth weithio gyda phobl i fwrw golwg ar fywyd y person yn ei gyfanrwydd i weld sut y gall gwasanaethau gyfrannu at gynorthwyo pobl i gyflawni'r hyn sydd o bwys iddynt hwy.

Dangosyddion Canlyniadau

Canran y bobl sydd â sgoriau hapusrwydd uchel

Canran y bobl sydd â sgoriau uchel o ran bodlonrwydd â bywyd

Canran y bobl sydd â llesiant meddwl uchel

Canran y bobl sydd â llai na dau ymddygiad ffordd iach o fyw

Canran y genedigaethau byw, unig-anedig, sydd â phwysau geni o lai na 2500 gram

Canran y plant sy'n cael gofal a chymorth gyda phroblemau iechyd meddwl

Canran y plant sy'n cael gofal a chymorth sydd wedi cael y brechiadau diweddaraf

Canran y plant 5 oed a hŷn sy'n cael gofal a chymorth ac sy'n gyfredol o ran archwiliadau deintyddol

Canran yr oedolion sy'n dweud bod eu hiechyd yn gyffredinol yn dda iawn neu'n dda

Disgwyliad oes iach ar enedigaeth (gwrywod a benywod)


Nifer y bobl hŷn sy'n torri eu clun

Canran y bobl sydd â sgoriau hapusrwydd uchel

Dywedodd y mwyafrif o bobl a oedd wedi cael gofal a chymorth a gofalwyr a oedd wedi cael cymorth fod ganddynt lefelau hapusrwydd uchel. Pan ofynnwyd iddynt yn yr Arolwg Cenedlaethol dywedodd tua dwy ran o dair o'r bobl a oedd wedi cael gofal a chymorth fod ganddynt lefelau hapusrwydd uchel neu uchel iawn ddoe (62 y cant). Dywedodd bron i dri chwarter (75 y cant) y gofalwyr a oedd wedi cael cymorth fod ganddynt lefelau hapusrwydd uchel neu uchel iawn.

Er bod gan y mwyafrif o'r rhai sy'n cael gofal a chymorth a gofalwyr sy'n cael cymorth sgoriau hapusrwydd uchel, mae ychydig yn is nag ar gyfer y rhai nad ydynt yn cael gofal a chymorth. Yn 2016-17, dywedodd 77 y cant o'r bobl yn y grŵp yma fod ganddynt lefelau hapusrwydd uchel neu uchel iawn (y diwrnod cynt). Mae siart 8 yn dangos y canfyddiadau hyn ar gyfer 2018-19 a'r canlyniadau tebyg ar gyfer 2016-17 a 2014-15.

Siart 8: Canran y bobl sydd â sgoriau hapusrwydd uchel




Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru

Canran y bobl sydd â sgoriau uchel o ran bodlonrwydd â bywyd

Dywedodd y mwyafrif o'r bobl a oedd wedi cael gofal a chymorth a gofalwyr a oedd wedi cael cymorth fod ganddynt lefelau uchel o ran bodlondeb bywyd. Mae siart 9 yn dangos, yn 2018-19, roedd gan tua dwy ran o dair o bobl (61 y cant) sy'n cael gofal a

chymorth sgoriau uchel o ran bodlonrwydd â bywyd. Mae hyn yn cymharu â 77 y cant o ofalwyr sy'n cael cymorth ac 84 y cant o bobl nad ydynt yn cael gofal a chymorth. Mae'r canlyniadau hyn yn debyg i ganlyniadau 2016-17 (63 y cant; 79 y cant; 83 y cant yn y drefn honno).

Siart 9: Canran y bobl sydd â sgoriau uchel o ran bodlonrwydd â bywyd



Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru

Canran y bobl sydd â llesiant meddwl uchel¹⁰


Cafodd Graddfa Lesiant Warwick-Caeredin (WEMWBS) ei chynnwys yn yr Arolwg Cenedlaethol i roi gwybodaeth am lesiant meddyliol. Gofynnwyd i ymatebwyr ymateb i gyfres o ddatganiadau, ac yn seiliedig ar eu hatebion rhoddwyd sgôr a oedd rhwng 14 (llesiant meddyliol isaf) a 70 (llesiant meddyliol uchaf). At ddibenion dadansoddi fe wnaethom grwpio'r sgorau hyn; llesiant meddyliol is na'r cyfartaledd (sgoriau o 14 i 44), llesiant cyfartalog (sgoriau o 45 i 57), a llesiant meddyliol uwch na'r cyfartaledd (sgoriau o 58 i 70).

Mae Siart 10 yn dangos bod gan 23 y cant o ofalwyr lesiant meddyliol uchel yn 2016-17. 2018-19 cynyddodd hyn i 25 y cant. Gellid gweld tueddiadau tebyg hefyd ar gyfer yr unigolion hynny nad oeddent yn cael gofal a chymorth. Yn 2016-17 nododd 23 y cant bod eu llesiant meddyliol yn uchel. Cynyddodd hyn i 26 y cant yn 2018-19.

I'r unigolion hynny sy'n cael gofal a chymorth, roedd y ffigurau hyn yn sylweddol is. Yn 2016-17 nododd 18 y cant lesiant meddyliol uchel. Gostyngodd hyn ychydig yn 2018-19 i 16 y cant.

Siart 10: Canran y bobl sydd â llesiant meddwl uchel

¹⁰ Mae'r ffigurau a gyflwynir ar gyfer oedolion yn unig



Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru

Canran y bobl sydd â llai na dau ymddygiad ffordd iach o fyw¹¹

Mae gan bobl gyfrifoldeb i wneud y pethau sy'n eu cadw'n iach ac yn egnïol. Mae pum ymddygiad ffordd iach o fyw a briodolir yn fwyaf cyffredin i iechyd da. Y rhain yw: peidio ag ysmygu, bod â phwysau iach, bwyta pum dogn o ffrwythau neu lysiau bob dydd, peidio ag yfed mwy na'r canllawiau a dilyn canllawiau o ran gweithgarwch corfforol.

Yn 2016-17, roedd gan un ym mhob deg o bobl (10 y cant) nad oeddent wedi cael gofal a chymorth lai na dau o'r ymddygiadau ffordd iach o fyw hyn. Gellir gweld canrannau tebyg ar gyfer pobl a oedd wedi cael gofal a chymorth (10 y cant) a gofalwyr a oedd wedi cael cymorth (9 y cant).

Yn 2018-19, mae ffigurau'n parhau'n debyg ar gyfer y rhai nad ydynt yn derbyn gofal a chymorth (10 y cant) a gofalwyr (9 y cant). Fodd bynnag, roedd gwahaniaeth sylweddol yn y rhai sy'n derbyn gofal a chymorth gyda 20 y cant yn rhoi gwybod eu bod â llai na dau ymddygiad ffordd iach o fyw.

Canran y genedigaethau byw, unig-anedig, sydd â phwysau geni o lai na 2500 gram

Mae cael ei eni â phwysau geni isel yn gallu achosi heriau hirdymor ar gyfer datblygiad plentyn a'r tebygolrwydd y bydd yn cyflawni ei lawn botensial trwy gydol ei blentyndod ac fel oedolyn.


Mae nifer y babanod sengl (yn hytrach na gefeilliaid neu dripledi ac ati) a anwyd yn pwyso llai na 2.5 kg (5 pwys, 8 owns) wedi bod yn gostwng dros y degawd diwethaf ond mae wedi cynyddu yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf. Dangosodd yr ystadegau diweddaraf ar gyfer 2019 fod 5.9 y cant o enedigaethau (babanod sengl) yn bwysau geni isel. Dyma'r ganran uchaf ers 2009 ac mae'n gynnydd cyson ers 2014.

¹¹ Mae'r ffigurau a gyflwynir ar gyfer oedolion yn unig

Canran y plant sy'n cael gofal a chymorth gyda phroblemau iechyd meddwl

Mae Plant sy'n Cael Gofal a Chymorth yn cofnodi nifer y plant dros 10 oed sy'n profi anawsterau gyda'u datblygiad emosiynol neu ymddygiadol. Mae siart 11 yn dangos bod gan 14.2 y cant (1,185) o'r 8,490 o blant dros 10 oed a oedd yn derbyn gofal a chymorth yn 2020 broblemau iechyd meddwl. Dyma'r isaf a gofnodwyd yn y pedair blynedd diwethaf.

Siart 11: Canran y plant sy'n cael gofal a chymorth gyda phroblemau iechyd meddwl, sydd wedi cael y brechiadau diweddaraf ac sy'n 5 oed a throsodd ac yn gyfredol o ran archwiliadau deintyddol



Ffynhonnell: Cyfrifiad Plant sy'n Derbyn Gofal a Chymorth Cymru, 2017

Canran y plant sy'n derbyn gofal a chymorth sydd wedi cael y brechiadau diweddaraf

Darparwyd gwybodaeth am imiwneiddio ar gyfer 16,050 (96.8 y cant) o'r plant sy'n derbyn gofal a chymorth. Mae siart 11 hefyd yn dangos bod cynnydd yn 2020 i 91.7 y cant o blant sy'n derbyn gofal a chymorth y darparwyd gwybodaeth ar eu cyfer ac sydd wedi cael brechiadau cyfredol, gan awgrymu bod lefelau bellach yn cyd-fynd â'r boblogaeth gyffredinol o blant¹²

Canran y plant pump oed a hŷn sy'n cael gofal a chymorth ac sy'n gyfredol o ran archwiliadau deintyddol

Darparwyd gwybodaeth am wiriadau deintyddol ar gyfer 12,155 (93.9 y cant) o blant 5 oed a hŷn. Dengys siart 11 fod 83 y cant o blant a gafodd ofal a chymorth yn

¹² Gweler y Datganiad Ystadegol, Imiwneiddio'r GIG, am wybodaeth am imiwneiddio ar gyfer pob plentyn.

gyfredol o ran archwiliadau deintyddol yn 2020. Roedd cyfran y plant sy'n derbyn gofal a oedd yn gyfredol o ran archwiliadau deintyddol yn uwch (89 y cant) nag ar gyfer plant eraill sy'n cael gofal a chymorth nad oeddent yn derbyn gofal nac ar y gofrestr amddiffyn plant (80 y cant) neu'r plant hynny a oedd ar y gofrestr amddiffyn plant (72 y cant).

Disgwyliad oes iach ar enedigaeth

Mae disgwyliad oes iach yn cynrychioli nifer y blynyddoedd y disgwylir i berson fyw mewn iechyd da. Gall amcangyfrifon amrywio yn dibynnu ar y dulliau a'r ffynonellau a ddefnyddir, ond mae'r cyfartaleddau diweddaraf yn awgrymu mai 61.4 yw'r disgwyliad oes iach i ddynion rhwng 2015 a 2017¹³ a 62.0 ar gyfer menywod. Mae hyn yn ostyngiad ers yr amcangyfrifon blaenorol yn 2010 i 2014, sef 65.2 ar gyfer dynion a 66.7 ar gyfer menywod.


Nifer y Bobl Hŷn sy'n Torri Eu Clun

Mae achosion o dderbyn pobl hŷn i'r ysbyty ar frys am eu bod wedi torri eu clun yn digwydd fynychaf o ganlyniad i gwympo y tu mewn neu'r tu allan i'r cartref. Unwaith y mae rhywun wedi cwympo gall niweidio ei hunan-hyder, gall achosi i bobl fod yn ofnus yn eu bywydau beunyddiol a gall arwain at fwy o debygolrwydd o ynysigrwydd cymdeithasol

Mae cyfradd y derbyniadau brys ar gyfer torri clun mewn pobl 65 oed a throsodd wedi gostwng dros y chwe blynedd diwethaf. Dengys siart 12 fod 579.0 o dderbyniadau fesul 100,000 yn 2018-19. Mae hyn yn cymharu â 614.3 fesul 100,000 yn 2015-16 a 652.7 fesul 100,000 yn 2012-13.

Siart 12: Cyfradd y derbyniadau brys ar gyfer torri clun mewn pobl 65 oed a throsodd

¹³ Bydd data ar ôl 2017 ar gael yn adroddiad y flwyddyn nesaf.




Ffynhonnell: Fframwaith Canlyniadau Iechyd y Cyhoedd

Canran yr oedolion sy'n dweud bod eu hiechyd yn gyffredinol yn dda iawn neu'n dda

Yn 2018-19, roedd pobl a oedd yn cael gofal a chymorth yn llai tebygol o ddweud bod eu hiechyd naill ai'n dda iawn neu'n dda (31 y cant) o'i gymharu â gofawyr a oedd wedi cael cymorth (72 y cant) a phobl nad oeddent wedi cael unrhyw ofal a chymorth (74 y cant). Mae Siart 13 yn dangos canlyniadau 2014-15 a 2016-17.

Siart 13: Canran yr oedolion sy'n dweud bod eu hiechyd yn gyffredinol yn dda iawn neu'n dda



Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru

Amddiffyn rhag camdriniaeth ac esgeulustod

Mae'r datganiad llesiant yn cydnabod bod teimlo'n ddiogel yn ganlyniad llesiant pwysig; mae gan bawb yr hawl i fod yn ddiogel a chael eu hamddiffyn rhag camdriniaeth ac esgeulustod. Mae'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) yn cryfhau trefniadau diogelu presennol mewn perthynas â phlant, ac yn cyflwyno dyletswydd i sicrhau bod yn rhaid i bartneriaid perthnasol (e.e. yr heddlu neu fyrddau iechyd lleol) hysbysu awdurdod lleol ynghylch unrhyw sefyllfa lle maent yn meddwl bod oedolyn yn wynebu risg o gael ei gam-drin neu ei esgeuluso.

Mae cynorthwyo unigolion i amddiffyn y bobl sydd o bwys iddynt yn ganlyniad llesiant pwysig hefyd, er enghraifft trwy addysgu pobl a'r rhai o'u cwmpas i adnabod arwyddion bod rhywun yn cael ei gam-drin a'i esgeuluso a'r risg y bydd rhywun yn cael ei gam-drin a'i esgeuluso.

Yn y gymuned ehangach, mae teimlo'n ddiogel mewn mannau cyhoeddus yn gallu cynyddu'r tebygolrwydd y bydd unigolyn yn mynd allan ac yn mwynhau ei gymuned leol, sy'n gallu helpu i leihau ynysigrwydd cymdeithasol a rhoi mwy o ymdeimlad o ymddiriedaeth a pherthyn i'w ardal leol.

Dangosyddion Canlyniadau

Nifer y digwyddiadau o gam-drin domestig

Nifer y troseddau rhyw

Canran y plant sy'n cael eu hailgofrestru ar gofrestr amddiffyn plant awdurdod lleol

Canran y bobl sy'n dweud eu bod yn teimlo'n ddiogel

Canran yr oedolion sydd mewn perygl o ddioddef camdriniaeth neu esgeulustod sy'n cael eu hatgyfeirio fwy nag unwaith y flwyddyn


Canran y bobl sy'n dweud eu bod yn teimlo'n ddiogel

Mae'r datganiad llesiant yn disgrifio canlyniadau llesiant i bobl y mae arnynt angen gofal a chymorth a gofaluwr y mae arnynt angen cymorth mewn perthynas â'u hamddiffyn rhag cael eu cam-drin a'u hesgeuluso. Mae'r datganiad yn cydnabod bod teimlo'n ddiogel yn ganlyniad llesiant pwysig.

Yn 2018-19, dywedodd y mwyafrif o'r bobl a oedd wedi cael gofal a chymorth a'r gofaluwr a oedd wedi cael cymorth eu bod yn teimlo'n ddiogel (80 y cant ac 86 y cant yn y drefn honno). Roedd ffigurau yr un fath fwy neu lai ar gyfer y rhai nad oeddent

wedi cael gofal a chymorth (84 y cant). Er bod cyfran fwy o bobl yn teimlo'n ddiogel, mae siart 14 yn dangos bod y ffigurau wedi gostwng yn gyson ers 2014-15.

Siart 14: Canran y bobl sy'n dweud eu bod yn teimlo'n ddiogel



Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru

Canran y plant sy'n cael eu hailgofrestru ar gofrestr amddiffyn plant awdurdod lleol

Mae'r datganiad llesiant yn disgrifio sut y dylai pobl fod yn ddiogel a chael eu hamddiffyn rhag camdriniaeth ac esgeulustod. Mae'n bwysig bod plant yn dal i gael eu hamddiffyn pan fyddant yn wynebu risg a bod achosion posibl o faterion diogelu sy'n digwydd dro ar ôl tro yn cael eu hamlygu. Yn 2018-19, dim ond canran fach o gofrestriadau plant ar gofrestrau amddiffyn plant awdurdodau lleol yn ystod y flwyddyn oedd yn ailgofrestriadau (5.1 y cant). Mae hyn yn cymharu â 5.4 y cant yn 2017-18 a 6.3 y cant yn 2016-17.

Nifer y digwyddiadau o gam-drin domestig

Mae'r datganiad llesiant yn disgrifio canlyniadau llesiant i amddiffyn pobl rhag camdriniaeth ac esgeulustod, yn ogystal ag addysgu pobl a'r rhai o'u cwrpas i adnabod arwyddion a pheryglon cam-drin ac esgeulustod.

Ar ddiwedd y flwyddyn ym mis Mawrth 2020 roedd tua 83,550 o ddigwyddiadau a throseddau cam-drin domestig yng Nghymru. Mae hyn yn cymharu â thua 80,925 o ddigwyddiadau a throseddau cam-drin domestig ar ddiwedd y flwyddyn ym mis Mawrth 2019. Mae hyn yn dangos cynnydd o 3.2 pwynt canran mewn digwyddiadau cam-drin domestig rhwng 2019 a 2020¹⁴.

¹⁴ Dylid darllen data Cam-drin domestig a Throseddau Rhywiol gyda chafeat – gwyddys nad yw cyfran uchel o droseddau'n cael eu hadrodd i'r Heddlu, a gall newidiadau mewn ffigurau a gofnodwyd adlewyrchu newidiadau mewn cyfraddau adrodd neu gofnodi yn hytrach nag erledigaeth wirioneddol. Am y rhesymau hyn, dylid bod yn ofalus wrth ddehongli tueddiadau yn y troseddau hyn.

Nifer y troseddau rhyw

Mae mynd i'r afael â phob math o droseddau rhyw yn flaenoriaeth sydd o'r pwys mwyaf i Lywodraeth Cymru, ac adlewyrchir hyn yn ein Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) a gyflwynwyd i'r Cynulliad ym mis Mehefin 2014.

Ledled Cymru, mae nifer y troseddau rhyw yr hysbysir yr heddlu yn eu cylch wedi cynyddu'n gyson dros y 6 blynedd ddiwethaf. Yn 2017-18 rhoddwyd gwybod am tua 8,800 o droseddau rhyw yng Nghymru. Golyga hyn y rhoddwyd gwybod am dros 2000 yn fwy o droseddau rhyw nag yn 2016-17 (6,300). Fodd bynnag, yn 2019-20, mae'r nifer hwn wedi gostwng i 7,400, ar ôl cyrraedd uchafbwynt o 9,100 yn 2018-19¹⁵.

Canran yr oedolion sydd mewn perygl o gamdriniaeth neu esgeulustod sydd wedi cael eu hatgyfeirio fwy nag unwaith yn ystod y flwyddyn

O dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru), mae'n ofynnol i awdurdodau lleol a'u partneriaid perthnasol gyfeirio at yr awdurdod lleol priodol os ydynt yn amau bod oedolyn mewn perygl (o gamdriniaeth neu esgeulustod). Yn 2018-19, cafodd awdurdodau lleol 20,472 o adroddiadau lle roedd amheuaeth bod oedolyn mewn perygl o gael ei gam-drin neu ei esgeuluso. Aeth ychydig dros hanner yr atgyfeiriadau hyn ymlaen i ymchwiliad. Yn 2018-19 adroddwyd bod 14.9 y cant o oedolion mewn perygl o gael eu cam-drin neu eu hesgeuluso. Mae hyn yn ostyngiad o 2017-18, lle dywedwyd bod 15.9 mewn perygl.

Addysg, Hyfforddiant a Gweithgareddau Hamdden

Mae'r datganiad Llesiant yn cydnabod bod gallu dysgu a datblygu i'w llawn potensial a gallu gwneud pethau sydd o bwys iddynt yn ganlyniadau Llesiant pwysig i bobl y mae arnynt angen gofal a chymorth a gofalwyr y mae arnynt angen cymorth.

Rhaid i blant allu caffael y sgiliau datblygiadol angenrheidiol er mwyn iddynt gyflawni eu potensial addysgol a chamu ymlaen at addysg uwch a phellach. Fel oedolyn, mae diffyg sgiliau addysgol sylfaenol megis darllen, ysgrifennu a rhifedd yn gallu cael effaith enfawr ar fywydau beunyddiol pobl, er enghraifft gallu deall biliau, ffurflenni a dogfennau.

Nid yw dysgu'n gyfyngedig i blant a'u haddysg; mae datblygu gwybodaeth a sgiliau ymhellach trwy addysg a hyfforddiant i oedolion yn gallu rhoi ymdeimlad o annibyniaeth i oedolion, gwella eu hyder, ac effeithio'n gadarnhaol ar allu rhywun

¹⁵ Ffigurau ar ddiwedd y flwyddyn 31 Mawrth. Mae ffigurau troseddau a gofnodwyd yn parhau i gael eu diwygio mewn cyhoeddiadau yn y dyfodol, wrth i luoedd ailgyflwyno data i adlewyrchu'r wybodaeth ddiweddaraf

i gael a chadw swydd. Mae bod ag incwm rheolaidd a chadw allan o dlodi'n gallu cael effaith arwyddocaol ar iechyd a llesiant pobl.

Dangosyddion Canlyniadau

Canlyniadau cyfnod allweddol 2 ar gyfer plant sy'n cael gofal a chymorth

Canlyniadau cyfnod allweddol 4 ar gyfer plant sy'n cael gofal a chymorth

Cyfraddau presenoldeb yn yr ysgol ar gyfer plant sy'n cael gofal a chymorth

Canran y plant sy'n cael gofal a chymorth sy'n cyflawni'r lefel ddysgu ddisgwyliedig, neu uwch, ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen

Deilliannau dysgwyr yn y sectorau addysg bellach, dysgu seiliedig ar waith a dysgu oedolion yn y gymuned

Y sgôr pwyntiau cymwysterau allanol ar gyfartaledd ar gyfer plant 16 oed sy'n derbyn gofal mewn unrhyw sefydliad addysg a gynhelir gan awdurdod addysg lleol

Canran yr oedolion rhwng 16 a 64 oed sydd ag o leiaf un cymhwyster


Canran y bobl sy'n dweud eu bod yn gallu gwneud yr hyn sy'n bwysig iddynt

Canran y bobl sy'n dweud eu bod yn gallu gwneud yr hyn sy'n bwysig iddynt

Rhaid i bobl allu cyflawni eu canlyniadau llesiant personol hwy eu hunain a pharhau i wneud yr hyn sy'n bwysig iddynt i roi eu hannibyniaeth eu hunain i bobl. Rhaid ystyried amgylchiadau unigol pobl; pobl sy'n gwybod beth sydd orau iddynt hwy, a rhaid i'w barn, eu dymuniadau a'u teimladau gael eu cymryd i ystyriaeth.

Yn 2018-19, roedd pobl a oedd wedi cael gofal a chymorth yn llai tebygol o ddweud eu bod yn gallu gwneud y pethau sy'n bwysig iddynt (57 y cant) o'i gymharu â gofalmwyr a oedd wedi cael cymorth (73 y cant) a phobl nad oeddent wedi cael unrhyw ofal a chymorth (75 y cant). Fel y mae siart 15 yn dangos, bu gostyngiad ers 2014-15 yng nghyfran y bobl sy'n cael gofal a chymorth ac sy'n dweud eu bod yn gallu gwneud y pethau sy'n bwysig iddynt.

Siart 15: Canran y bobl sy'n dweud eu bod yn gallu gwneud yr hyn sy'n bwysig iddynt



Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru

Canlyniadau Cyfnod Allweddol 2 ar gyfer plant sy'n cael gofal a chymorth¹⁶

Cyfnod Allweddol 2 yw'r term sy'n disgrifo'r pedair blynedd o addysg mewn ysgolion a gynhelir yng Nghymru a Lloegr pan fo disgyblion rhwng 7 ac 11 oed. Rhaid i wasanaethau gofal a chymorth annog plant i gyfranogi mewn addysg, hyfforddiant a gweithgareddau hamdden i'w cynorthwyo i ddysgu a datblygu i'w llawn botensial.

Mae bwlch cyrhaeddiad addysgol eang rhwng plant sy'n cael gofal a chymorth a phob disgybl yng Nghymru. Yn 2019, cyflawnodd 56.6 y cant o blant a dderbyniodd ofal a chymorth y dangosydd pwnc craidd yng Nghyfnod Allweddol 2. Mae'r lefel hon wedi bod yn gostwng dros y ddwy flynedd ddiwethaf, i lawr o 60.2 y cant yn 2017.

Canlyniadau Cyfnod Allweddol 4 ar gyfer plant sy'n cael gofal a chymorth

Cyfnod Allweddol 4 yw'r enw a roddir i'r ddwy flynedd o addysg ysgol sy'n cynnwys TGAU, ac arholiadau eraill, mewn ysgolion a gynhelir yng Nghymru a Lloegr, pan fo disgyblion rhwng 14 ac 16 oed. Mae canran y plant sy'n cael gofal a chymorth ac sy'n cyflawni'r dangosydd pwnc craidd ar gyfer Cyfnod Allweddol 4 yn is na'r rhai sy'n cyflawni yng Nghyfnod Allweddol 2 ac unwaith eto mae bwlch cyrhaeddiad addysgol eang rhwng plant sy'n cael gofal a chymorth a phob disgybl yng Nghymru. Yn 2019, cyflawnodd 12.0 y cant o blant a gafodd ofal a chymorth y dangosydd pwnc craidd yng Nghyfnod Allweddol 4.

Cyfraddau presenoldeb yn yr ysgol ar gyfer plant sy'n cael gofal a chymorth

Mae presenoldeb yn yr ysgol yn gallu cael effaith arwyddocaol ar y deilliannau addysgol a gyflawnir gan blant. Yn 2019, cyfradd presenoldeb yn yr ysgol ar gyfer

¹⁶ Bydd Cwricwlwm Cymru yn newid ym mis Medi 2022, ac felly ni fydd cyfeiriadau o'r fath at Gyfnodau Allweddol yn briodol mwyach. Bydd y data a gesglir ynghylch cyrhaeddiad addysgol yn newid o ganlyniad i hyn. Bydd adroddiadau yn y dyfodol yn cael eu diweddarau yn unol â'r data a gesglir ar gyfer y cwricwlwm newydd.


plant sy'n cael gofal a chymorth oedd 89.5 y cant. Mae hyn yn is na 2017 a 2018 lle'r oedd y gyfradd bresenoldeb yn 91.8 a 91.6 y cant yn y drefn honno.

Deilliannau dysgwyr yn y sectorau addysg bellach, dysgu seiliedig ar waith a dysgu oedolion yn y gymuned

Mae darparwyr dysgu ym mhob sector yn hollbwysig i wella safonau addysg. Mae'r dangosydd hwn yn ystyried y gyfran o'r holl weithgareddau dysgu yn y sectorau Addysg Bellach a Dysgu Oedolion yn y Gymuned yng Nghymru a gwblheir ac a gyflawnir. Mae'r dangosydd ar gyfer y sector Dysgu seiliedig ar Waith yn ymwneud â chwblhau fframweithiau prentisiaeth yn llwyddiannus. Mae Addysg Bellach yn cynnwys dau ddangosydd, un ar gyfer y rhai sy'n cwblhau'r rhaglen addysgol gyffredinol (UG a Safon Uwch) ac un arall ar gyfer y rhai sy'n cwblhau addysg alwedigaethol a rhaglenni eraill.

Cyfradd llwyddiant gweithgarwch dysgu yng Nghymru yn y sector dysgu oedolion yn y gymuned yn 2018/19 oedd 90 y cant, sydd wedi bod yn sefydlog am y tair blynedd diwethaf. Cyfradd llwyddiant y fframwaith prentisiaeth dysgu seiliedig ar waith oedd 81 y cant, yr un gyfradd ag yn 2015-16. Mae cyfradd cwblhau'r rhaglen addysg gyffredinol wedi cynyddu i 72 y cant, i fyny deuddeg pwynt canran o 2016/17. Mae cyfradd cwblhau rhaglen alwedigaethol a rhaglenni dysgu eraill wedi aros yn sefydlog ar 88 y cant.

Siart 16: Tueddiadau mewn deilliannau dysgwyr



Ffynhonnell: Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru

Canran yr oedolion rhwng 16 a 64 oed sydd ag o leiaf un cymhwyster

Mae sgiliau addysgol sylfaenol megis darllen, ysgrifennu a rhifedd yn gallu cael effaith enfawr ar fywydau beunyddiol pobl, o ddeall biliau, ffurflenni a dogfennau, i roi arweiniad i blant trwy'r ysgol ac ymlaen at gyfleoedd addysg bellach. Ar ôl troi'n oedolyn, mae cymwysterau addysgol yn gallu cael effaith ar allu rhywun i gael a chadw swydd hefyd, ac ar ei allu i dderbyn incwm rheolaidd.

Mae canran yr oedolion o oedran gweithio (rhwng 16 a 64 oed) sydd ag o leiaf un cymhwyster wedi cynyddu'n gyson ers 2012. Yn 2020, roedd gan 92.7 y cant o'r oedolion o oedran gweithio o leiaf un cymhwyster.

Canran y plant sy'n cael gofal a chymorth sydd wedi cyflawni'r lefel ddysgu ddisgwyliedig, neu uwch, ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen

Y Cyfnod Sylfaen yw'r cwrwllwm statudol ar gyfer yr holl blant 3 i 7 oed yng Nghymru. Mae'n helpu plant i ddatblygu a chaffael y sgiliau angenrheidiol er mwyn bod â'r sail orau bosibl ar gyfer eu twf a'u datblygiad yn y dyfodol. Yn 2019, cyflawnodd 48.3 y cant o blant sy'n derbyn gofal a chymorth y lefel ddysgwyliedig o ddysgu yn y Cyfnod Sylfaen. Mae hyn yn is nag mewn blynyddoedd blaenorol, lle cyflawnodd 52.3 a 55.6 y cant y lefel ddysgwyliedig yn 2017 a 2018 yn y drefn honno. Mae hyn yn cymharu ag 80 y cant o'r holl ddisgyblion yng Nghymru yn 2019.

Perthnasoedd domestig, teuluol a phersonol

Mae'r datganiad llesiant yn cydnabod bod meddu ar rwydweithiau cymdeithasol cryf, trwy deulu a ffrindiau, a bod ag ymdeimlad o berthyn i'r gymuned leol yn bwysig i leihau ynysigrwydd cymdeithasol ac unigedd i bobl y mae arnynt angen gofal a chymorth a gofalwyr y mae arnynt angen cymorth.

Mae bod ag ymdeimlad o berthyn i gymuned fwy yn gallu gwella hyder a hunanwerth pobl ac mae'n gallu lleihau teimladau o arwahanrwydd trwy alluogi pobl i ymgysylltu â'i gilydd.

Dangosyddion Canlyniadau

Canran y bobl sy'n teimlo eu bod nhw'n perthyn i'w hardal leol

Canran y bobl sy'n teimlo bod eu hardal leol yn rhywle lle mae pobl o gefndiroedd gwahanol yn cyd-dynnu'n dda

Canran y bobl sy'n dweud eu bod yn teimlo'n unig yn gyffredinol, yn emosiynol ac yn gymdeithasol

Canran y bobl sy'n meddwl bod pobl yn eu hardal leol yn parchu ac yn ystyried ei gilydd

Canran y bobl sy'n dweud eu bod yn teimlo'n unig yn gyffredinol, yn emosiynol ac yn gymdeithasol¹⁷

Mae unigrwydd emosiynol a chymdeithasol yn gallu effeithio ar iechyd person. Gall rhwydweithiau cymdeithasol a chyfeillgarwch gael effaith o ran lleihau'r risg o farwolaeth neu o ddatblygu rhai clefydau, ond maent hefyd yn gallu helpu unigolion i wella pan fyddant yn sâl.

Yn 2016-17, y grŵp a oedd yn dweud bod ganddynt y lefelau uchaf o unigrwydd emosiynol a chymdeithasol ar y cyfan oedd y rhai a oedd wedi cael gofal a chymorth (22 y cant). Y grŵp â'r lefelau ail uchaf oedd pobl nad oeddent yn cael gofal a chymorth (17 y cant) ac yna gofawyr a oedd wedi cael cymorth (15 y cant).


Canran y bobl sy'n meddwl bod pobl yn eu hardal leol yn parchu ac yn ystyried ei gilydd

Mae teimlo'n ddiogel, gan fod yn barod i gyfranogi yn y gymuned leol a chyfrannu ati'n bwysig i sicrhau llesiant pobl. Mae cael ei barchu a'i ystyried gan deulu a ffrindiau, gwasanaethau cyhoeddus ac yn y gymuned ehangach yn gallu cael effaith ar allu rhywun i deimlo'i fod yn ddiogel ac yn barod i gyfranogi yn ei gymuned leol a chyfrannu ati.

Mae siart 17 yn dangos bod bron i dri chwarter y bobl ym mhob categori'n teimlo bod pobl yn eu hardal leol yn parchu ac yn ystyried ei gilydd yn 2018-19. Y bobl sy'n cael gofal a chymorth oedd lleiaf tebygol o deimlo bod pobl yn eu hardal leol yn trin ei gilydd gyda pharch, gyda 72 y cant yn teimlo felly, o'i gymharu â 75 y cant o ofalwyr sy'n derbyn cymorth a 76 y cant o bobl nad ydynt yn derbyn gofal a chymorth.

Siart 17: Canran y bobl sy'n meddwl bod pobl yn eu hardal leol yn trin ei gilydd â pharch

¹⁷ Mesur unigrwydd – graddfa De Jong Gierveld – gweler termau a diffiniadau




Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru

Canran y bobl sy'n teimlo eu bod nhw'n perthyn i'w hardal leol

Yn 2018-19, roedd 74 y cant o'r bobl a oedd wedi cael gofal a chymorth, 75 y cant o'r gofalwyr a oedd wedi cael cymorth a 72 y cant o'r bobl nad oeddent wedi cael gofal a chymorth yn teimlo'u bod yn perthyn i'w hardal leol. Fel y mae siart 18 yn dangos, mae cyfran y bobl a oedd yn teimlo'u bod yn perthyn i'w hardal leol wedi gostwng yn gyffredinol ers 2014-15.

Siart 18: Canran y bobl sy'n teimlo eu bod nhw'n perthyn i'w hardal leol




Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru

Canran y bobl sy'n teimlo bod eu hardal leol yn rhywle lle mae pobl o gefndiroedd gwahanol yn cyd-dynnu'n dda

Mae siart 19 yn dangos, yn 2018-19, roedd 73 y cant o'r bobl a oedd wedi cael gofal a chymorth, 76 y cant o'r gofalwyr a oedd wedi cael cymorth a 73 y cant o'r bobl nad oeddent wedi cael cymorth yn teimlo bod eu hardal leol yn rhywle lle mae pobl o gefndiroedd gwahanol yn cyd-dynnu'n dda. Ychydig o newid a fu yn y dangosydd hwn ers 2016-17.

Siart 19: Canran y bobl sy'n teimlo bod eu hardal leol yn rhywle lle mae pobl o gefndiroedd gwahanol yn cyd-dynnu'n dda



Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru

Y cyfraniad a wneir at gymdeithas

Mae'r datganiad llesiant yn cydnabod mai'r canlyniadau llesiant allweddol i bobl y mae arnynt angen gofal a chymorth a gofalwyr y mae arnynt angen cymorth yw gallu ymgysylltu a chyfrannu at eu cymuned, a theimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi yn y gymdeithas. Mae'r ddau ganlyniad yma'n gallu rhoi ymdeimlad o fod yn werth chweil sy'n gallu helpu pobl i gymryd gwell gofal o'u hiechyd corfforol, eu hiechyd meddwl a'u hiechyd emosiynol.

Mae ymdeimlad isel o werth yn gallu effeithio ar iechyd meddwl, ymddygiadau a sut y mae pobl yn uniaethu ag eraill, gan gynnwys eu ffrindiau a'u teulu. Mae cael ei barchu a'i ystyried gan deulu a ffrindiau, gwasanaethau cyhoeddus ac yn y gymuned ehangach yn gallu gwneud i rywun deimlo ei fod yn ddiogel ac yn barod i fod yn rhan o'i gymuned leol a chyfrannu ati.

Dangosyddion Canlyniadau

Canran y bobl sy'n dweud bod y pethau a wnânt mewn bywyd yn werth chweil

Canran y bobl sy'n gwirfoddoli

Canran y sefydliadau gwirfoddol sy'n cynnig gweithgareddau i'r gymuned neu i bobl ifanc

Canran y sefydliadau gwirfoddol sy'n cynnig cymorth i bobl anabl


Canran y bobl sy'n dweud bod y pethau a wnânt mewn bywyd yn werth chweil

Mae'r datganiad llesiant yn cydnabod bod ymdeimlad o fod yn werth chweil ac o gael eu gwerthfawrogi yn y gymdeithas yn gallu helpu pobl y mae arnynt angen gofal a chymorth a gofawyr y mae arnynt angen cymorth i gymryd gwell gofal o'u hiechyd corfforol, eu hiechyd meddwl a'u hiechyd emosiynol ac yn gallu helpu pobl i gymryd camau cadarnhaol tuag at gyflawni eu canlyniadau llesiant personol.

Yn 2018-19, pobl a oedd wedi cael gofal a chymorth oedd y grŵp â'r ganran isaf o bobl a oedd yn teimlo bod y pethau a wnânt mewn bywyd yn werth chweil (67 y cant). Mae hyn yn cymharu â gofawyr a oedd wedi cael cymorth (84 y cant) a phobl nad oeddent wedi cael unrhyw ofal a chymorth (87 y cant).

Fel y dengys siart 20, ychydig o newid a fu ers 2014-15 i bobl nad ydynt yn derbyn gofal a chymorth, ond gwelwyd gostyngiad i'r rhai sy'n derbyn gofal a chymorth.

Siart 20: Canran y bobl sy'n dweud bod y pethau a wnânt mewn bywyd yn werth chweil



Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru

Canran y bobl sy'n gwirfoddoli

Mae gwirfoddoli'n ffordd i bobl allu ymgysylltu â'u cymuned leol a chyfrannu ati. Mae gwirfoddoli'n gallu cynnig llawer o fanteision i bobl, gan gynnwys datblygu sgiliau newydd, mwy o ryngweithio cymdeithasol ac ymdeimlad o gael eu gwerthfawrogi.

Yn 2016-17, gwirfoddolodd 36 o cant o ofalwyr mewn clybiau neu sefydliadau, am ddim. Mae hyn yn cymharu â 29 y cant o ddefnyddwyr gofal a 28 y cant o'r bobl nad oeddent yn ofalwyr nac yn ddefnyddwyr gofal.

Canran y sefydliadau gwirfoddol sy'n cynnig gweithgareddau i'r gymuned neu i bobl ifanc

Mae'r sector gwirfoddol yn amrywiol iawn. Er bod y mwyafrif o sefydliadau gwirfoddol yn elusennau cofrestredig ceir cymdeithasau tai, undebau credyd, cwmnïau budd

cymunedol, ymddiriedolaethau a grwpiau cymunedol lleol hefyd sy'n ceisio cefnogi unigolion amrywiol yn y gymuned. Mae gweithgareddau cymunedol yn cynnwys grwpiau'n gweithio i adfywio eu cymunedau lleol, gwella mynediad lleol at wasanaethau, cylchlythyrau cymunedol a rhaglenni datblygu. Mae gweithgareddau ieuencid yn cynnwys grwpiau sy i bobl ifanc, canolfannau ieuencid, clybiau ffermwyr ifainc, sefydliadau mewn lifrai a grwpiau diwylliannol.

Yn 2020, roedd 22.5 y cant o sefydliadau gwirfoddol yn cynnig gweithgareddau cymunedol neu i bobl ifanc. Dyma'r ffigur uchaf ers 2017, pan dim ond 19.7 y cant a ddywedodd eu bod yn cynnig y gweithgareddau hyn.

Canran y sefydliadau gwirfoddol sy'n cynnig gweithgareddau i bobl anabl

Yn 2020, disgynnodd y ganran o sefydliadau gwirfoddol a oedd yn cynnig gweithgareddau i bobl anabl i 2.6 y cant. Yn 2018, roedd 4.4 y cant o sefydliadau gwirfoddol yn cynnig gweithgareddau i bobl anabl.

Llesiant cymdeithasol ac economaidd

Mae'r datganiad Llesiant yn cydnabod bod statws cymdeithasol ac economaidd pobl y mae arnynt angen gofal a chymorth a gofawyr y mae arnynt angen cymorth yn bwysig o ran pennu eu lefelau Llesiant. Cydnabyddir bod cyflogaeth ddiogel, o ansawdd yn hanfodol i lesiant economaidd, corfforol a meddyliol pobl.

Mae cynnal cyfraddau cyflogaeth uchel yn hollbwysig i godi safonau byw a mynd i'r afael ag anghydraddoldeb a thlodi. Gall pobl wynebu nifer o rwystrau i gyflogaeth. Efallai y bydd gan rai broblemau iechyd; efallai y bydd angen i eraill ennill sgiliau newydd i adlewyrchu'r amgylchedd gwaith presennol.

Bydd dileu'r rhwystrau hyn a chynorthwyo pobl i aros mewn gwaith yn helpu pobl i gael yr un mynediad at wasanaethau a chyfleoedd â gweddill y gymdeithas, ac yn sicrhau eu bod yn gallu parhau i fod â rôl weithredol mewn cymdeithas a byw bywydau mor iach, annibynnol a boddhaus â phosibl.

Mae amodau cymdeithasol ac economaidd yr ardal lle caiff pobl eu geni neu lle maent yn byw yn gallu cael effaith sylweddol ar eu hiechyd a'u Llesiant hefyd. Mae hyn yn arbennig o wir am blant y mae arnynt angen gofal a chymorth a phlant sy'n derbyn gofal gan awdurdodau lleol, sy'n fwy tebygol o fyw yn yr ardaloedd mwy difreintiedig yng Nghymru.

Dangosyddion Canlyniadau

Cyfradd cyflogaeth oedolion 50 oed a hŷn

Cyfradd cyflogaeth oedolion sydd rhwng 16 a 64 oed ac sydd ag anabledd craidd neu anabledd sy'n cyfyngu ar eu gallu i weithio dan y Ddeddf Cydraddoldeb

Bwlch o ran disgwyliad oes rhwng y rhai sydd leiaf a mwyaf difreintiedig

Canran y bobl ifanc 19-24 oed nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant


Canran yr aelwydydd sy'n ddifreintiedig yn faterol

Cyfradd cyflogaeth oedolion 50 oed a hŷn

Gall pobl hŷn wynebu nifer o rwystrau i gyflogaeth, trwy broblemau iechyd, neu fod â sgiliau nad ydynt yn adlewyrchu'r amgylchedd gwaith presennol. Bydd helpu pobl hŷn i aros mewn gwaith yn sicrhau eu bod yn gallu parhau i fod â rôl weithredol mewn cymdeithas a byw bywydau mor iach, annibynnol a boddhaus â phosibl.

Mae Siart 21 yn dangos bod tua dau o bob pump o oedolion (42.7 y cant) 50 oed a throsodd mewn cyflogaeth ar ddiwedd y flwyddyn 2020, mae hyn yn dangos cynnydd o flwyddyn i flwyddyn dros y chwe blynedd diwethaf, i fyny o 36.5 y cant yn 2015.

Siart 21: Cyfradd cyflogaeth oedolion 50 oed a hŷn a 16-64 oed ac sydd ag anabledd craidd neu anabledd sy'n cyfyngu ar eu gallu i weithio dan y Ddeddf Cydraddoldeb



Ffynhonnell: Arolwg o'r Llafurlu

Cyfradd cyflogaeth oedolion sydd rhwng 16 a 64 oed ac sydd ag anabledd craidd neu anabledd sy'n cyfyngu ar eu gallu i weithio dan y Ddeddf Cydraddoldeb

Ystyrir bod cyflogaeth ddiogel o ansawdd yn hanfodol i lesiant economaidd, corfforol a meddyliol pobl. Bydd dileu rhwystrau ar gyfer pobl anabl yn helpu i wneud yn siŵr bod pobl anabl yn cael yr un mynediad at wasanaethau a chyfleoedd â gweddill cymdeithas.

Yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2020 roedd ychydig yn llai na hanner (47.8 y cant) y bobl rhwng 16 a 64 oed ac oedd ag anabledd craidd neu anabledd a oedd cyfyngu ar eu gallu i weithio dan y Ddeddf Cydraddoldeb mewn cyflogaeth. Mae hyn wedi gostwng ers y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2019 lle'r oedd canran y bobl 16-64 oed oedd ag anabledd craidd neu anabledd a oedd cyfyngu ar eu gallu i weithio a oedd mewn cyflogaeth yn 49.7 y cant, ond mae'n dal i fod yn gynnydd dros y chwe blynedd diwethaf, fel y dangosir gan siart 20.

Bwlch o ran disgwyliad oes rhwng y rhai leiaf a mwyaf difreintiedig

Mae disgwyliad oes iach yn parhau i fod yn anghyfartal ledled Cymru. Mae cysylltiad cryf rhwng amddifadedd a disgwyliad oes – bydd gan bobl sy'n cael eu geni i deuluoedd difreintiedig ddisgwyliad oes iach byrrach. Adlewyrchir hyn yn y bwlch disgwyliad oes iach rhwng ardaloedd mwyaf a lleiaf difreintiedig Cymru ac nid yw hyn wedi newid yn ystod y blyneddau diwethaf.


Oherwydd newid yn y dull ar gyfer cyfrifo Disgwyliad Oes Iach ni fydd diweddariad yn yr adroddiad hwn; bydd data ar gael mewn diweddariadau yn y dyfodol

Canran y bobl ifanc 19-24 oed nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET)

Mae hyfforddiant, addysg bellach neu addysg uwch neu bod mewn cyflogaeth barhaus yn bwysig i oedolion ifanc (19-24 oed). Mae cael niferoedd uchel o oedolion ifanc nad ydynt mewn rhyw fath o hyfforddiant, addysg bellach neu addysg uwch, nac wedi sicrhau cyflogaeth barhaus yn gallu arwain at ystod o ganlyniadau negyddol i bobl ifanc ac i gymdeithas yn ehangach, er enghraifft trwy gynydd mewn problemau iechyd meddwl neu gyfraddau troseddu.

Mae Siart 22 yn dangos bod 15.7 y cant o bobl ifanc 19-24 oed yng Nghymru yn NEET ar ddiwedd 2019, mae hyn yn cymharu ag 16 y cant yn 2018 a 15.1 y cant yn 2017. Mae hyn yn golygu bod y gwelliant graddol yng nghyfraddau'r rhai nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant yn parhau i wella ers 2012.

Siart 22: Canran y bobl ifanc 19-24 oed nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET)




Ffynhonnell: Datganiad Ystadegol Llywodraeth Cymru

Canran yr aelwydydd sy'n wynebu amddifadedd materol

Yn 2018-19, roedd pobl a oedd wedi cael gofal a chymorth yn fwy tebygol o fyw mewn aelwyd sy'n wynebu amddifadedd materol¹⁸ (24 y cant) o'i gymharu â gofalmwr a oedd wedi cael cymorth a phobl nad oeddent wedi cael unrhyw ofal a chymorth (13 y cant). Canfuwyd canlyniadau tebyg yn 2014-15 a 2016-17 fel a ddangosir yn Siart 23.

Siart 23: Canran yr aelwydydd sy'n wynebu amddifadedd materol



Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru

¹⁸ Diffinnir aelwyd sy'n wynebu amddifadedd materol fel aelwyd nad yw'n gallu fforddio pethau fel cadw'r tŷ'n ddigon cynnes, cynilo'n rheolaidd, cael gwyliau unwaith y flwyddyn, ac a oes gan yr aelwyd fynediad i'r rhyngwrwyd

Addasrwydd llety preswyl

Gall llety preswyl diogel, boddhaol a phriodol gael effaith sylweddol ar lesiant pobl. Mae'r datganiad llesiant yn nodi y dylai pobl y mae arnynt angen gofal a chymorth a gofalwyr y mae arnynt angen cymorth fyw mewn cartref sy'n rhoi'r gefnogaeth orau iddynt sicrhau'r llesiant gorau.

Gall amodau byw gwael a gorboblogi gael effaith negyddol ar iechyd corfforol a llesiant meddyliol pobl a gall fod yn rhwystr i addysg a datblygiad plant.

Mae hyn yn pwysleisio rôl a chyfrifoldebau pwysig gwasanaethau gofal a chymorth, awdurdodau lleol a chymdeithasau tai o ran cydweithio mewn partneriaeth i sicrhau bod llety preswyl yn addas ar gyfer anghenion yr holl bobl y mae arnynt angen gofal a chymorth a gofalwyr y mae arnynt angen cymorth.

Dangosyddion Canlyniadau

Canran y bobl sy'n dweud bod eu llety yn addas i'w hanghenion

Canran y teuluoedd digartref sy'n cynnwys plant dibynnol


Canran y sefydliadau gwirfoddol sy'n cynnig gweithgareddau tai

Canran y tai cymdeithasol sy'n cydymffurfio â Safon Ansawdd Tai Cymru

Canran y bobl sy'n dweud bod eu llety yn addas i'w hanghenion

Yn 2018-19, roedd 84 y cant o'r bobl a oedd wedi cael gofal a chymorth yn cytuno bod ganddynt lety a oedd yn addas i'w hanghenion ac roedd 93 y cant o'r gofalwyr a oedd wedi cael cymorth yn cytuno bod ganddynt lety a oedd yn addas i anghenion y person a oedd yn cael gofal ganddynt yn eu cartref. Mae'r data'n awgrymu gwelliant graddol ymhlith gofalwyr sy'n derbyn cymorth, ond gostyngiad ymhlith y bobl hynny sy'n derbyn gofal a chymorth, fel y dangosir yn siart 24.

Siart 24: Canran y bobl sy'n dweud bod eu llety yn addas i'w hanghenion



Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru

Canran yr aelwydydd digartref sy'n cynnwys plant dibynnol

Mae nifer o wahanol ffactorau personol a chymdeithasol yn gallu cyfrannu at sefyllfa lle mae pobl yn dod yn ddigartref, ac yn gallu achosi amhariad a thrawma aruthrol i unrhyw un sy'n profi sefyllfa o'r fath, ond mae plant yn arbennig o agored i niwed o ganlyniad i effeithiau digartrefedd, gan golli ysgol yn aml.

Yn 2018-19, roedd tua chwarter yr holl aelwydydd yr aseswyd eu bod yn ddigartref yn cynnwys plant dibynnol (22.7 y cant). Dyma'r lefel isaf am y pedair blynedd diwethaf, gyda'r uchafbwynt yn 24.8 y cant yn 2016-17.

Canran y sefydliadau gwirfoddol sy'n cynnig gweithgareddau tai

Mae'r trydydd sector yn ategu gwasanaethau statudol trwy roi cymorth i ddarparu gwasanaethau mewn modd di-dor a darparu gwasanaethau er budd pobl a chymunedau yng Nghymru. Y nod yw hwyluso amgylchedd lle mae pobl wedi'u galluogi'n well i'w cefnogi eu hunain, lle y bo'n briodol.

Yn 2020, roedd 1.3 y cant o'r sefydliadau gwirfoddol yn cynnig cymorth tai, megis prosiectau digartrefedd, cynlluniau gofal a thrwsio, gwasanaethau cyngor ar dai a chymdeithasau tenantiaid a phreswylwyr. Mae hyn yn is na'r blynyddoedd blaenorol, lle'r oedd y lefelau'n parhau'n sefydlog ar 3.1 ar gyfer 2016 i 2018¹⁹.

Canran y tai cymdeithasol sy'n cydymffurfio â Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC)

Gall ansawdd tai cymdeithasol yng Nghymru gael effaith ar bobl sy'n cael gwasanaethau gofal a chymorth. Cyflwynwyd SATC am y tro cyntaf yn 2002 a'i nod yw helpu i sicrhau bod yr holl anheddau o ansawdd da a'u bod yn addas ar gyfer anghenion preswylwyr presennol a phreswylwyr y dyfodol. Cyhoeddwyd canllawiau diwygiedig yn 2008. Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i bob landlord

¹⁹ Ni chasglwyd unrhyw ddata ar gyfer 2019.

cymdeithasol²⁰ yng Nghymru fabwysiadu'r safon a sicrhau bod eu holl gartrefi'n cyrraedd y safon cyn gynted â phosibl, ond yn bendant erbyn 2020, ac i gynnal hyn yn y dyfodol.

Yn 2018, roedd 93.1 y cant o'r holl stoc tai cymdeithasol yng Nghymru yn cydymffurfio â SATC (gan gynnwys methiannau derbyniol). Mae'r ffigur hwn wedi parhau i gynyddu ers i'r data canolog ddechrau cael eu casglu yn 2011-12, pan mai 42 y cant o'r holl stoc tai cymdeithasol yng Nghymru oedd yn cydymffurfio â SATC (gan gynnwys methiannau derbyniol).

Y Camau Nesaf

Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i ddatblygu a diweddarau'r dangosyddion ar gyfer meysydd lle nad oes data ar gael a lle mae'r trefniadau casglu data wedi cael eu diwygio neu lle rhoddwyd y gorau i gasglu data. Byddwn hefyd yn parhau i fonitro'r data a'r polisiâu o dan y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant yn ystod y broses o'i rhoi ar waith i ddeall a yw polisi'n cael ei weithredu fel a fwriadwyd ac i roi cymorth i wella polisiâu.

Bydd Fframwaith Perfformiad a Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol newydd Llywodraeth Cymru yn cynnig data newydd y gellir eu defnyddio fel dangosyddion o dan y Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol. Caiff hyn ei adolygu cyn y cyhoeddiad blynyddol nesaf a gall arwain at ddiwygio'r dangosyddion presennol a/neu gynnwys dangosyddion newydd.

Cyn adroddiad blynyddol nesaf y Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol, bydd y Fframwaith Canlyniadau ar y Cyd ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol yn cael ei gyhoeddi. Roedd y Fframwaith Canlyniadau ar y Cyd yn argymhelliad yn yr ymgynghoriad gwella trefniadau gofal cymdeithasol a gwaith partneriaeth²¹ a bydd yn darparu gwybodaeth am ganlyniadau poblogaeth cenedlaethol y gall ac y bydd gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn cyfrannu atynt. Mae'r dangosyddion ar gyfer y Fframwaith Canlyniadau ar y Cyd yn defnyddio'r data ar lefel genedlaethol a all roi cipolwg ar iechyd pobl Cymru. Mae rhai o'r rhain wedi'u cynnwys yn y Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol ar hyn o bryd, ac felly bydd gwaith cyn yr adroddiad blynyddol nesaf i adolygu'r dangosyddion presennol a dileu o'r Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol os oes unrhyw ddyblygu.

²⁰ Mae landlordiaid cymdeithasol yn darparu tai cymdeithasol ac yn cynnwys cymdeithasau tai (sefydliadau dielw sy'n berchen ar dai rhent, yn eu gosod ac yn eu rheoli) a chynghorau lleol.

²¹ <https://llyw.cymru/gwella-trefniadau-gofal-cymdeithasol-gwaith-partneriaeth>